# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu


**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.**

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Adran Gwaith
a Phensiynau

# Help os ydych chi’n sâl neu’n anabl

Mae’r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth a ddewiswyd o **www.gov.uk** ar 9 Mai 2018. Mae’r wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar-lein. Mae’r daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig ac ni ddylid dibynnu arno fel datganiad llawn o’r gyfraith yn y maes hwn.




## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Tâl Salwch Statudol | 3 |
| Lwfans Cyflogaeth a chymorth | 5 |
| Taliad Annibyniaeth Personol | 9 |
| Lwfans Gweini | 11 |
| Lwfans Byw i’r Anabl ar gyfer plant | 12 |
| Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol | 15 |
| Taliad Niwed Trwy Frechiad | 17 |
| Lwfans Gofalwr | 20 |
| Credyd Gofalwr | 22 |
| Chwilio am waith os ydych chi’n anabl | 23 |
| Credyd Treth Gwaith | 25 |
| Help arall is ydych yn anabl | 26 |

Argraffwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio’r testun a gymerwyd o **www.gov.uk** ar 9 Mai 2018.

© Hawlfraint y Goron.

ISBN 978-1-78659-053-4

**DWP17W** (Mai 2018)



**Codau QR**

Dyma godau bar sgwâr sy’n agor gwefan benodol, gan arbed i chi deipio cyfeiriadau gwe hir.

Gallwch gael ap am ddim i sganio codau QR ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar.

## Tâl Salwch Statudol

www.gov.uk/statutory-sick-pay

Gallwch gael Tâl Salwch Statudol (SSP) o £92.05 yr wythnos am hyd at 28 wythnos.

Cewch SSP am y dyddiau y byddech fel arfer wedi gweithio. Ni chaiff ei dalu am y 3 diwrnod cyntaf rydych i ffwrdd, oni bai y talwyd SSP i chi o fewn yr 8 wythnos diwethaf ac yn gymwys ar ei gyfer eto.

Os oes gennych fwy nag un swydd, gallech gael SSP gan bob cyflogwr.

### Sut y cewch eich talu

Telir SSP gan eich cyflogwr yn yr un ffordd â'ch cyflog arferol (er enghraifft: yn wythnosol neu'n fisol).

Caiff Treth ac Yswiriant Gwladol ei ddidynnu.

Os na chredwch eich bod yn cael y swm cywir o SSP, siaradwch â'ch cyflogwr. Os ydych yn dal yn anfodlon, cysylltwch â llinell ymholiadau Cyllid a Thollau EM (HMRC).

Ffôn: **0300 200 3500**
Ffôn testun: **0300 200 3519**
Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 5pm, dydd Sadwrn 8am i 4pm

### Cymhwyster

I fod yn gymwys i gael Tâl Salwch Statudol (SSP), mae'n rhaid i chi:

- cael ei ystyried fel cyflogai ac wedi gwneud rhywfaint o waith ar gyfer eich cyflogwr
- wedi bod yn sâl am o leiaf 4 diwrnod yn olynol (gan gynnwys diwrnodau nad ydych yn gweithio)
- ennill £116 (cyn treth) yr wythnos ar gyfartaledd
- dweud wrth eich cyflogwr eich bod yn sâl cyn eu terfyn amser - neu o fewn 7 diwrnod os nad oes ganddynt un

Mae gan weithwyr asiantaeth hawl i Dâl Salwch Statudol.

**Eithriadau**

Ni fyddwch yn gymwys os ydych:

- wedi derbyn yr uchafswm o SSP (28 wythnos)
- wedi cymryd 3 blynedd neu fwy o 'gyfnodau cysylltiedig' o salwch - lle mae 4 neu fwy o ddiwrnodau salwch yn digwydd o fewn 8 wythnos i'w gilydd
- yn cael Tâl Mamolaeth Statudol

Gallwch barhau i fod yn gymwys os gwnaethoch ddechrau eich swydd yn ddiweddar, ac nad ydych wedi cael 8 wythnos o dâl eto. Gofynnwch i'ch cyflogwr i gael rhagor o wybodaeth.

**Cyfnodau cysylltiedig o salwch**

Os ydych yn cael cyfnodau rheolaidd o salwch, efallai y byddant yn cyfrif fel 'cysylltiedig'. I fod yn gysylltiedig, mae'n rhaid i'r cyfnodau fod:

- para
- fod yn 8 wythnos neu lai ar wahân i'w gilydd

Nid ydych belllach yn gymwys i gael Tâl Salwch Statudol os oes gennych gyfres barhaus o gyfnodau cysylltiegid sy'n para mwy 3 blynedd.

**Sut i wneud cais**

Er mwyn hawlio Tâl Salwch Statudol (SSP), rhowch wybod i'ch cyflogwr yn ysgrifenedig (os ydynt yn gofyn am hynny) ac erbyn eu terfyn amser (neu o fewn 7 diwrnod os nad oes ganddynt un).

Bydd ond angen i chi gael nodyn ffitrwydd meddyg (neu nodyn salwch) os byddwch yn sâl am 7 diwrnod neu fwy.

## Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

www.gov.uk/employment-support-allowance

Os ydych yn sâl neu'n anabl, bydd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn cynnig i chi:

- cymorth ariannol os na allwch weithio
- help personol fel y gallwch weithio os ydych yn gallu

Gallwch wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os ydych yn gyflogedig, yn hunangyflogedig neu'n ddi-waith.

Efallai y cewch eich trosglwyddo i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os ydych wedi bod yn hawlio budd-daliadau eraill fel Cymhorthdal Incwm neu Fudd-dal Analluogrwydd.

### Yr hyn a gewch

Fel arfer, byddwch yn cael y gyfradd asesu am 13 wythnos ar ôl eich cais. Bydd hyn:

- hyd at £57.90 yr wythnos os ydych yn llai na 25 oed
- hyd at £73.10 yr wythnos os ydych yn 25 oed neu drosodd

Ar ôl hynny, os oes gennych hawl i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, byddwch yn cael ei roi mewn 1 o 2 grŵp a byddwch yn cael:

- hyd at £73.10 yr wythnos os ydych yn y grŵp gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith
- hyd at £110.75 yr wythnos os ydych yn y grŵp cymorth

Os ydych yn y grŵp cymorth ac ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, byddwch hefyd yn gymwys i gael y premiwm anabledd uwch am £16.40 yr wythnos.

Efallai byddwch hefyd yn gymwys am y premiwm anabledd difrifol o £64.30 yr wythnos.

Os bydd yr asesiad yn cymryd mwy na 13 wythnos, bydd eich budd-dal yn cael ei ôl-ddyddio i 14eg wythnos y cais.

## Mathau o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Mae 3 fath o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth 'dull newydd' os ydych yn gymwys i wneud cais am Gredyd Cynhwysol
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau - fel arfer cewch hwn os ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol (Gall credydau Yswiriant Gwladol gyfrif am ran o hyn, os byddwch yn ei cael)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm - fel arfer cewch hwn ar ei ben ei hun neu ar ben Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau, os ydych ar incwm isel

## Cymorth yn gysylltiedig â gwaith

Yn dilyn eich Asesiad Gallu i Weithio, byddwch yn ymuno â naill ai'r grŵp gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith neu'r grŵp cymorth os oes gennych hawl i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

## Grŵp gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith

Mae'n rhaid i chi fynd i gyfweliadau rheolaidd gydag ymgynghorydd a all eich helpu gyda phethau fel nodau swyddi a gwella eich sgiliau.

## Grŵp cymorth

Nid oes yn rhaid i chi fynd i gyfweliadau, ond gallwch ofyn am gael siarad ag ymgynghorydd personol. Rydych fel arfer yn y grŵp hwn os yw eich salwch neu'ch anabledd yn cyfyngu'n ddifrifol ar yr hyn y gallwch ei wneud.

## Cymhwyster

Gallwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os yw eich salwch neu anabledd yn effeithio ar eich gallu i weithio a:

- rydych o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth.
- nid ydych yn cael Tâl Salwch Statudol neu Dâl Mamolaeth Statudol ac nid ydych wedi dychwelyd i'r gwaith
- nid ydych yn cael Lwfans Ceisio Gwaith

Gallwch wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os ydych yn gyflogedig, yn hunangyflogedig, yn ddi-waith neu'n fyfyriwr sy'n cael Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Personol.

Efallai y gallwch gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os ydych wedi byw neu weithio dramor ac wedi talu digon o Yswiriant Gwladol y DU (neu'r hyn sy'n gyfwerth mewn gwlad yr AEE neu wlad arall y mae gan y DU gytundeb â hwy).

Defnyddiwch gyfrifiannell budd-daliadau i wirio a ydych yn gymwys. Cewch ragor o wybodaeth yn
www.gov.uk/benefits-adviser

## Asesiad Gallu i Weithio

Ar ôl i chi wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, cewch lythyr yn dweud wrthych ble i fynd i gael eich Asesiad Gallu i Weithio ac yn esbonio beth i'w wneud.

Bydd yn rhaid i chi hefyd gwblhau'r 'Holiadaur gallu cyfyngedig i weithio' yn ystod y cais. Mae'r holiadur yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon.

Gellir atal eich budd-dal os na fyddech yn cwblhau'r holiadur neu'n mynd i'r asesiad.

Efallai y byddwch yn gallu cael recordiad o'r asesiad.

## Gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os ydych yn gweithio

Gallech weithio a pharhau i hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae'n dibynnu ar faint a gewch eich talu a'r oriau a wnewch.

### Gwaith a ganiateir

Os gwnewch 'gwaith a ganiateir' ni fydd fel arfer yn effeithio ar eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae'n waith a ganiateir os yw'r ddau beth yn berthnasol:

- rydych yn ennill hyd at £125.50 yr wythnos
- rydych yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos

Nid oes cyfyngiad ar faint o wythnosau y gall eich gwaith a ganiateir barhau.

### Gwaith a ganiateir wedi'i gynnal

Gallwch wneud 'gwaith a ganiateir wedi'i gynnal' ac ennill hyd at £125.50 yr wythnos. Rhaid i'r gwaith a ganiateir wedi'i gynnal yn un o'r canlynol:

- rhan o raglen driniaeth

- dan oruchwyliaeth gan rywun o gyngor lleol neu fudiad gwirfoddol y mae ei swydd i drefnu gwaith i bobl anabl.

## Pan fyddwch yn dechrau gweithio

Llenwch ffurflen PW1W a'i hanfon i swyddfa'r Ganolfan Byd Gwaith sy'n delio â'ch budd-dal. Lawrlwythwch ffurflen trwy chwilio am 'PW1ESAW' yn **www.gov.uk/cymraeg**

Mae angen i chi ddweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith os gwnewch unrhyw waith gwirfoddol (nid yw hyn fel arfer yn effeithio ar eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth).

Dywedwch wrth y swyddfa Canolfan Byd Gwaith sy'n delio â'ch cais os bydd eich amgylchiadau'n newid (er enghraifft: os bydd eich incwm yn newid neu os ydych yn mynd dramor) gan y gall effeithio ar eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

## Eich incwm a'ch cynilion

Efallai y bydd eich incwm yn effeithio ar eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau neu'n seiliedig ar incwm. Gall incwm gynnwys:

- eich incwm chi a'ch partner
- cynilion dros £6,000
- incwm pensiwn

Ni fyddwch yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm os oes gennych gynilion dros £16,000.

Nid yw Lwfans Cyflogaeth a Chymorth dull newydd yn ystyried unrhyw gynilion sydd gennych.

## Sut i wneud cais

Y ffordd gyflymaf i wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yw dros y ffôn.

Mae'r rhif y byddwch yn ei ffonio yn dibynnu ar ba fath o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth rydych ynn gwneud cais amdano.

Efallai y byddwch yn gallu hawlio Credyd Cynhwysol. Gwiriwch eich bod yn gymwys i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cyn gwneud cais.

**Lwfans Cyflogaeth a Chymorth dull newydd**

Gwnewch gais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth dull newydd dros y ffôn.

Ffôn: 0800 328 1744

Ffôn testun: 0800 328 1344

Dydd Llun i Ddydd Gwener, 8am i 6pm

Os nad ydych yn gymwys i hawlio Credyd Cynhwysol yn eich ardal, ni fyddwch yn gallu hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth dull newydd. Efallai y gallwch hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau neu incwm yn lle hynny.

**Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau neu incwm**

Ffoniwch y ganolfan gyswllt i wneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau neu incwm.

Ffôn: 0800 012 1888

Ffôn testun: 0800 023 4888

Dydd Llun i Ddydd Gwener, 8am i 6pm

## Taliad Annibyniaeth Personol

www.gov.uk/pip

Gallech gael help gyda rhai o'r costau ychwanegol a achosir gan afiechyd neu anabledd hirdymor.

Os ydych rhwng 16 a 64 oed, gallech gael rhwng £22.65 a £145.35 yr wythnos trwy hawlio Taliad Annibyniaeth Personol (PIP).

Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar sut mae eich cyflwr yn effeithio arnoch, nid y cyflwr ei hun.

Bydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn eich asesu i gyfrifo lefel y cymorth y gallwch ei gael. Bydd eich cyfradd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth gywir.

Gallai eich gofalwr gael Lwfans Gofalwr os oes gennych anghenion gofalu sylweddol.

**Cymhwyster**

Rhaid i chi fod yn 16 i 64 oed a bod gennych gyflwr iechyd neu anabledd lle rydych:

- wedi cael anawsterau gyda bywyd bob dydd neu fynd o gwmpas (neu'r ddau) am 3 mis
- yn disgwyl i'r anawsterau hyn barhau am o leiaf 9 mis (oni bai eich bod â salwch terfynol gyda llai na 6 mis i fyw)

Mae'n rhaid i chi fod wedi byw yng Nghymru, Lloegr, neu'r Alban am o leiaf 2 o'r 3 blynedd ddiwethaf, a bod yn un o'r gwledydd hyn pan fyddwch yn gwneud cais. Os ydych wedi dychwelyd yn ddiweddar o fyw mewn gwlad arall o'r AEE, efallai y gallwch gael PIP yn gynt.

Mae'r broses yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon.

Gallwch gael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) p'un a ydych yn gweithio ai peidio.

Mae yna reolau ychwanegol os ydych chi'n byw dramor neu os nad ydych chi'n ddinesydd Prydeinig.

**Sut i wneud cais**

Gallwch wneud cais Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) newydd trwy ffonio'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Gall rhywun arall ffonio ar eich rhan, ond bydd angen i chi fod gyda nhw pan fyddant yn ffonio. Mae ffyrdd eraill o hawlio hefyd os ydych yn ei chael hi'n anodd defnyddio ffôn.

Mae'r broses yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon.

**Hawlio dros y ffôn neu ffôn testun**

Cyn i chi ffonio, bydd angen:

- eich manylion cyswllt, er enghraifft rhif ffôn
- eich dyddiad geni
- eich rhif Yswiriant Gwladol - mae hwn ar lythyrau am dreth, pensiynau a budd-daliadau
- eich rhif cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a chod didoli
- enw, cyfeiriad a rhif ffôn eich meddyg neu weithiwr iechyd
- dyddiadau a chyfeiriadau am unrhyw amser rydych chi wedi'i dreulio dramor, mewn cartref gofal neu ysbyty

Yna gallwch ffonio’r llinell Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)
Ffôn: **0800 917 2222**
Ffôn testun: **0800 917 7777**
Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn **www.gov.uk/call-charges**

## Lwfans Gweini

www.gov.uk/attendance-allowance

Mae Lwfans Gweini yn helpu gyda chostau ychwanegol os oes gennych anabledd sy’n ddigon difrifol  eich bod angen rhywun i helpu gofalu amdanoch.

Telir ar 2 gyfradd wahanol ac mae faint y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar lefel y gofal sydd ei angen oherwydd eich anabledd.

Gallech gael £57.30 neu £85.60 yr wythnos i helpu gyda chymorth personol os bod gan y ddau ohonoch:

- anabledd corfforol neu feddyliol
- yn 65 oed neu hŷn

Nid yw’n cwmpasu anghenion symudedd.

Gall y budd-daliadau eraill a gewch gynyddu os ydych yn cael Lwfans Gweini.

Nid oes yn rhaid cael rhywun i ofalu amdanoch i wneud cais.

Os oes gennych ofalwr, gallent gael Lwfans Gofalwr os oes gennych anghenion gofalu sylweddol.

### Cymhwyster

Gallwch gael Lwfans Gweini os ydych yn 65 oed neu’n hŷn ac mae’r canlynol yn berthnasol:

- mae gennych anabledd corfforol (gan gynnwys anabledd synhwyraidd, e.e. dallineb), anabledd meddyliol (gan gynnwys anawsterau dysgu), neu’r ddau
- mae eich anabledd yn ddigon difrifol i chi fod angen help ofalu am eich hun neu rywun i’ch goruchwylio, er mwyn eich diogelwch eich hun neu rywun arall
- roedd angen y cymorth hwnnw arnoch am o leiaf 6 mis (oni bai eich bod yn derfynol wael)

### Sut i wneud cais

Defnyddiwch y ffurflen AA1AW i wneud cais am Lwfans Gweini drwy'r post. Lawrlwythwch ffurflen yn www.gov.uk/attendance-allowance/how-to-claim. Mae'r ffurflen yn cynnwys nodiadau sy'n dweud wrthych sut i'w llenwi.

Gallwch hefyd gael copi o'r ffurflen o'r linell gymorth Lwfans Gweini.

Llinell gymorth Lwfans Gweini

Ffôn: 0800 731 0122
Ffôn testun: 0800 731 0317

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn www.gov.uk/call-charges

### Rheolau arbennig - os oes gennych salwch terfynol

Mae 'rheolau arbennig' er mwyn i chi gael Lwfans Gweini yn gyflymach os nid oes disgwyl i chi fyw am fwy na 6 mis. Rhaid i chi:

- cwblhau ffurflen Lwfans Gweini
- cynnwys adroddiad cyflwr meddygol DS1500W neu'i anfon wedi hynny - mae'r rhain yn rhad ac am ddim a gallwch ond ei gael gan feddyg teulu, arbenigwr neu ymgynghorydd.

Gallwch wneud hyn ar ran rhywun arall heb eu caniatâd. Ni fydd y llythyr am yr arian a ddyfernir yn sôn am 'rheolau arbennig'.

## Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant

www.gov.uk/disability-living-allowance-children

Gall Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant helpu gyda chost ychwanegol i ofalu am blentyn sydd:

- o dan 16 oed
- gyda phroblemau cerdded neu angen llawer mwy o help na phlentyn o'r un oedran nad yw'n anabl

Bydd angen iddynt gwrdd a'r holl ofynion cymhwysedd.

Mae'r gyfradd Lwfans Byw i'r Anabl rhwng £22.65 a £145.35 yr wythnos ac yn dibynnu ar y lefel o help sydd ei angen ar y plentyn.

Efallai y bydd angen asesiad ar y plentyn i weithio allan pa help sydd ei angen arnynt.

### Cymhwyster

Fel arfer, i fod yn gymwys i gael Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant rhaid i'r plentyn:

- o dan 16 oed
- angen gofal ychwanegol neu os oes gennych anawsterau cerdded
- bod ym Mhrydain Fawr, gwlad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) arall, neu'r Swistir pan fyddwch yn hawlio - mae rhai eithriadau, e.e. aelodau teulu'r Lluoedd Arfog
- wedi byw ym Mhrydain Fawr am 2 allan o'r 3 blynedd diwethaf os dros 3 oed
- bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, Iwerddon, Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel
- peidio â bod yn destun i reolaeth mewnfudo

Mae rhai eithriadau i'r amodau hyn os yw'r plentyn yn byw neu'n dod o wlad yr AEE arall neu'r Swistir.

Gallwch wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant os ydych mewn gwaith neu allan o waith.

### Plant o dan 3 oed

Mae'n rhaid i blentyn o dan 6 mis oed wedi bod yn byw ym Mhrydain Fawr am o leiaf 13 wythnos.

Mae'n rhaid i blentyn rhwng 6 mis a 3 oed wedi bod yn byw ym Mhrydain Fawr am o leiaf 26 o'r 156 wythnos diwethaf.

Nid yw'r rheolau ar breswylio fel arfer yn berthnasol os yw plentyn yn derfynol sal.

### Cyflwr anabledd neu iechyd y plentyn

Mae'n rhaid i gyflwr anabledd neu iechyd y plentyn olygu un neu ddau o'r canlynol:

- bod angen llawer mwy o ofal na phlentyn o'r un oedran nad yw'n anabl
- bod ganddynt broblemau symud o gwmpas

Mae'n rhaid iddynt fod wedi cael yr anawsterau hyn am o leiaf 3 mis ac yn disgwyl iddynt bara am o leiaf 6 mis. Os ydynt yn derfynol sal (h.y. ni ddisgwylir iddynt fyw am fwy na 6 mis), nid oes angen iddynt fod wedi cael yr anawsterau hyn am 3 mis.

## Sut i wneud cais

Defnyddiwch y ffurflen gais Lwfans Byw i'r Anabl i wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plant sydd o dan 16 oed. Mae'r ffurflen yn dweud wrthych ble i anfon eich cais.

Gallwch archebu ffurflen wedi'i hargraffu drwy ffonio llinell gymorth Lwfans Byw i'r Anabl.

Lwfans Byw i'r Anabl

Ffôn: 0800 121 4600
Ffôn testun: 0800 121 4523

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn www.gov.uk/call-charges

Gall Lwfans Byw i'r Anabl ond cael ei hawlio ar gyfer plant sydd o dan 16 oed - mae'n rhaid i unrhyw un sydd dros 16 oed wneud cais am Daliad Annibyniaeth Personol.

Gallwch hawlio Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer plentyn cyn belled ag y byddwch yn gofalu amdanynt fel eich bod yn rhiant iddynt hwy. Mae 'rhiant' yn cynnwys llysrieni, gwarcheidwaid, neiniau a theidiau, rhieni maeth, a hyd yn oed brodyr neu chwiorydd hŷn.

Ni all Lwfans Byw i'r Anabl gael ei ôl-ddyddio. Bydd dyddiad eich cais fel arfer y dyddiad y mae'r ffurflen yn cael ei derbyn neu'r dyddiad rydych yn ffonio'r llinell ymholiadau (os ydych yn dychwelyd y pecyn cais o fewn 6 wythnos).

Mae fel arfer yn cymryd 40 diwrnod gwaith i ddelio â chais am Lwfans Byw i'r Anabl.

## Salwch terfynol

Mae rheolau arbennig os nid oes disgwyl i'r plentyn fyw am fwy na 6 mis, er mwyn iddynt gael Lwfans Byw i'r Anabl yn gyflymach. Rhaid i chi:

- cwblhau ffurflen gais Lwfans Byw i'r Anabl

• gofynnwch i feddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall am ffurflen DS1500W - byddant naill ai'n ei llenwi ac yn rhoi'r ffurflen i chi neu'n ei anfon yn uniongyrchol i DWP.

## Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

www.gov.uk/industrial-injuries-disablement-benefit

Efallai y cewch Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os ydych yn dod yn sâl neu'n anabl oherwydd damwain neu afiechyd naill ai:

- yn y gwaith
- ar gynllun cyflogaeth a gymeradwywyd neu gwrs

Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol.

Gallai eich gofalwr gael Lwfans Gofalwr os oes gennych anghenion gofal sylweddol. Cewch wybod mwy yn **www.gov.uk/carers-allowance**

### Yr hyn a gewch

Bydd lefel eich anabledd yn effeithio ar faint o fudd-dal y gallech ei gael. Bydd hyn yn cael ei asesu gan 'ymgynghorydd meddygol' ar raddfa o 1 i 100%.

### Cymhwyster

### Damweiniau

Efallai y gallwch wneud cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os:

- oeddech yn gyflogedig pan ddigwyddodd y ddamwain neu'r digwyddiad
- roeddech ar gynllun hyfforddi cyflogaeth neu gwrs a gymeradwywyd pan ddigwyddodd y ddamwain neu'r digwyddiad
- gwnaeth y ddamwain neu'r digwyddiad a achosodd eich salwch neu anabledd ddigwydd yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban

Mae'r yna rhai eithriadau y gallwch ofyn i'ch Canolfan Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol rhanbarthol amdanynt.

## Afiechydon

Gallwch hawlio Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os oeddech yn gyflogedig mewn swydd neu roeddech ar gynllun hyfforddi cyflogaeth neu gwrs a gymeradwywyd a achosodd eich afiechyd. Mae'r cynllun yn cwmpasu mwy na 70 o glefydau, gan gynnwys:

- asthma
- broncitis cronig neu emffysema
- byddardod
- clefyd y llwch (gan gynnwys silicosis ac asbestosis)
- osteoarthritis y pen-glin mewn glowyr
- afiechyd penodol A11 (a elwid gynt yn gyflwr y bysedd gwyn)
- mesothelioma ymledol a nifer o glefydau eraill sy'n gysylltiedig ag asbestos fel carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys clefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos, gan gynnwys:

- clefyd y llwch (asbestosis)
- mesothelioma ymledol
- carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint lle y ceir tystiolaeth o asbestosis
- carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint heb asbestosis ond lle y bu amlygiad galwedigaethol helaeth i asbestos mewn galwedigaethau penodol
- tewychu pliwraidd ymledol unochrog neu ddwyochrog.

Gallwch gael rhestr lawn o'r afiechydon gan eich canolfan Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ranbarthol. Ni allwch hawlio Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol os oeddech yn hunangyflogedig. Cewch wybod mwy yn www.gov.uk/industrial-injuries-disablement-benefit/further-information

## Sut i wneud cais

Bydd angen i chi lenwi a phostio ffurflen hawlio. Mae'r ffurflen yn cynnwys nodiadau sy'n:

- eich helpu i'w llenwi
- dweud wrthych ble i'w hanfon

## Damweiniau

Argraffwch a llenwch y ffurflen BI100AW yn www.gov.uk/industrial-injuries-disablement-benefit/how-to-claim i hawlio Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer damweiniau.

**Afiechydon**
Argraffwch a llenwch y ffurflen BI100AW yn www.gov.uk/industrial-injuries-disablement-benefit/how-to-claim i hawlio Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol ar gyfer afiechydon.

I gael furflen, cysylltwch â:
Canolfan Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol Barnsley
Ffôn: 0800 121 8379

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn www.gov.uk/call-charges

## Taliad Niwed Trwy Frechiad

www.gov.uk/vaccine-damage-payment

Os oes gennych anabledd difrifol o ganlyniad i frechiad yn erbyn clefydau penodol, gallech gael taliad di-dreth untro o £120,000. Gelwir hyn yn Daliad Niwed drwy Frechiad.

**Effaith ar fudd-daliadau eraill**
Gall Taliad Niwed Trwy Frechiad effeithio ar fudd-daliadau a hawliadau eraill fel:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- Credyd Cynhwysol
- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Gostyngiad Treth Cyngor
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Bydd yr effaith y mae'r taliad yn ei gael yn dibynnu ar nifer o bethau. Mae hyn yn cynnwys y taliad yn cael ei rhoi mewn ymddiriedolaeth a'r taliadau'n cael eu gwneud ohono.

Dylech roi gwybod i'r swyddfa sy'n delio a'ch cais am fudd-dal neu gredyd treth os oes gennych Daliad Niwed drwy Frechiad.

Gallwch gael manylion cyswllt o lythyrau a anfonwyd atoch ganddynt hwy.

**Cymhwyster**

Gallech gael taliad os ydych yn ddifrifol anabl a bod eich anabledd wedi'i achosi gan frechiad yn erbyn unrhyw un o'r afiechydon canlynol:

- clwy'r pennau
- difftheria
- feirws papiloma dynol
- ffliw, ac eithrio ar gyfer y ffliw a achosir gan firws ffliw pandemig
- Ffliw Haemoffiliws math B (HIB)
- ffliw pandemig A (H1N1) 2009 (ffliw moch) - hyd at 31 Awst 2010
- haint niwmococaidd
- Meningococaidd Grŵp B, C neu W (llid yr ymennydd B, C neu W)
- pertwsis (y pâs)
- poliomyelitis
- rotafirws
- rwbela (y frech Almaeneg)
- tetanws
- twbercwlosis (TB)
- y frech goch
- y frech wen - hyd at 1 Awst 1971

Efallai eich bod wedi cael brechiad cyfun yn erbyn nifer o glefydau a restrwyd. Er enghraifft, efallai eich bod wedi cael eich brechu yn erbyn DTP (difftheria, tetanws a phertwsis) neu MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela).

Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael taliad os ydych yn anabledd difrifol oherwydd naill ai:

- cafodd eich mam ei brechu rhag un o'r clefydau yn y rhestr tra'r oedd yn feichiog
- rydych wedi bod mewn cysylltiad corfforol agos â rhywun sydd wedi cael brechiad geneuol yn erbyn poliomyelitis

**Beth sy'n cyfrif fel 'anabledd difrifol'**

Cyfrifir anabledd fel canran, ac mae 'anabledd difrifol' yn golygu o leiaf 60% yn anabl.

Gallai hyn fod yn anabledd meddyliol neu gorfforol a bydd yn seiliedig ar dystiolaeth feddygol gan y meddygon neu'r ysbytai sy'n ymwneud â'ch triniaeth.

### Pryd a ble mae'n rhaid i'r brechiad wedi digwydd

Mae'n rhaid i chi fel arfer wedi cael eich brechu cyn eich pen-blwydd yn 18 oed oni bai bod y brechiad yn ystod achos o glefyd yn y DU neu Ynys Manaw, neu roedd yn erbyn:

- poliomyelitis
- rwbela
- grŵp meningococaidd C
- feirws papiloma dynol
- ffliw pandemig A (H1N1) 2009 (ffliw moch)
- grŵp meningococaidd W cyn eich penblwydd yn 26 oed

Mae'n rhaid i'r brechiad wedi cael ei roi yn y DU neu Ynys Manaw, oni bai eich bod yn brechu fel rhan o driniaeth feddygol y Lluoedd Arfog.

### Sut i wneud cais

Gwnewch gais drwy lenwi'r ffurflen gais yn www.gov.uk/vaccine-damage-payment/how-to-claim. Os ydych o dan 18 oed, dylai eich rhiant neu warcheidwad hawlio ar eich rhan.

Anfonwch y ffurflen at:
Vaccine Damage Payment Unit
Palatine House
Lancaster Road
Preston PR1 1HB

Gallwch gysylltu a'r Uned Taliad Niwed drwy Frechiad i ofyn am ffurflen gais:

**Uned Taliad Niwed drwy Frechiad**
Ffôn: 01772 899 944
Ffôn testun: 0800 731 0317

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am i 5pm ac ar ddydd Gwener, 8.30am i 4.30pm.

## Lwfans Gofalwr

www.gov.uk/carers-allowance

Gallech gael £62.10 yr wythnos os ydych yn gofalu am rywun o leiaf 35 awr yr wythnos ac maent yn cael budd-daliadau penodol.

Nid oes rhaid i chi fod yn perthyn i, neu'n byw gyda, y sawl yr ydych yn gofalu amdano. Ni fyddwch yn cael taliad ychwanegol os ydych yn gofalu am fwy nag un person.

Gall Lwfans Gofalwr effeithio ar y budd-daliadau eraill yr ydych chi a'r person yr ydych yn gofalu amdano yn eu cael. Mae'n rhaid i chi dalu treth arno os yw eich incwm dros y Lwfans Personol.

### Cymhwyster

### Y person rydych yn gofalu amdano

Dylai'r person rydych yn gofalu amdano eisoes yn cael un o'r budd-daliadau hyn:

- Elfen byw bob dydd Taliad Annibyniaeth Personol
- Lwfans Byw i'r Anabl - y gyfradd gofal ganol neu uwch
- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson ar neu'n uwch na'r gyfradd uwch arferol gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, neu gyfradd sylfaenol (diwrnod llawn) gyda Phensiwn Anabledd Rhyfel
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog

### Chi

Mae'n rhaid i chi beidio ennill mwy na £120 yr wythnos ar ôl treth a threuliau. Gall treuliau gynnwys rhai o'ch cyfraniadau pensiwn - a rhai o gostau gofalu am eich plant neu'r person anabl tra'ch bod yn y gwaith.

Efallai y gallwch gael Lwfans Gofalwr os yw pob un o'r canlynol yn berthnasol:

- rydych yn 16 oed neu'n hŷn
- rydych yn treulio o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu am rywun
- rydych wedi bod yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban am o leiaf 2 allan o'r 3 blynedd diwethaf
- rydych yn byw fel arfer yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, neu os ydych yn byw dramor fel aelod o'r lluoedd arfog

- nid ydych mewn addysg llawn amser
- nid ydych yn astudio am 21 awr neu fwy'r wythnos
- nid ydych yn destun i reolaeth fewnfudo

Efallai y byddwch yn parhau i fod yn gymwys os ydych yn symud i mewn neu' byw mewn gwlad arall o'r AEE neu'r Swistir.

Gallech fod yn gymwys i gael Credyd Gofalwr os nad ydych yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr.

Mae'r rheolau yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon..

**Sut i wneud cais**

Cyn gwneud cais, sicrhewch fod gennych:

- Rhif Yswiriant Gwladol (os oes gennych bartner hefyd, bydd angen eu un hwy)
- manylion banc neu gymdeithas adeiladu (oni bai eich bod yn cael eich Pensiwn y Wladwriaeth)
- manylion cyflogaeth a'r slip cyflog diweddaraf os ydych yn gweithio
- P45 os ydych wedi gorffen gwaith yn ddiweddar
- manylion y cwrs os ydych yn astudio

Mae angen hefyd manylion y person rydych yn gofalu amdano. Byddwch angen eu:

- dyddiad geni a'u cyfeiriad
- Rhif Yswiriant Gwladol os ydynt yn 16 oed neu'n hŷn
- Cyfeirnod Lwfans Byw i'r Anabl os ydynt o dan 16 mlwydd oed.

Gallwch ôl-ddyddio eich cais hyd at 3 mis.

Gwnewch gais yn www.gov.uk/carers-allowance/how-to-claim

Os na allwch wneud cais ar-lein, gallwch wneud cais drwy'r post. Mae'r cyfeiriad i anfon eich cais ar ddiwedd y ffurflen. Lawrlwythwch ffurflen gais yn www.gov.uk/carers-allowance/how-to-claim

## Credyd Gofalwr

www.gov.uk/carers-credit

Gallech gael Credyd Gofalwr os ydych yn gofalu am rywun am o leiaf 20 awr yr wythnos.

Mae Credyd Gofalwr yn gredyd Yswiriant Gwladol sy’n helpu gyda bylchau yn eich cofnod Yswiriant Gwladol. Mae eich Pensiwn y Wladwriaeth yn seiliedig ar eich cofnod Yswiriant Gwladol.

Ni fydd eich incwm, cynilion neu fuddsoddiadau yn effeithio ar gymhwysedd ar gyfer Credyd Gofalwr.

### Cymhwyster

I gael Credyd Gofalwr rhaid i chi fod:

- yn 16 oed neu’n hŷn
- o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth
- yn gofalu am un neu fwy o bobl am o leiaf 20 awr yr wythnos

Mae’n rhaid i’r person rydych yn gofalu amdano gael un o’r canlynol:

- elfen ofal Lwfans Byw i’r Anabl ar y gyfradd ganol neu uwch
- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson
- Taliad Annibyniaeth Personol – elfen byw bob dydd ar y gyfradd safonol neu uwch
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog

Os nad yw’r person rydych yn gofalu amdano yn cael un o’r budd-daliadau hyn, gallech barhau i gael Credyd Gofalwr. Pan fyddwch yn gwneud cais, cwblhewch y rhan ‘Tystysgrif Ofal’ ar y ffurflen gais a chael gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol i’w llofnodi.

Gall gofalwyr nad yw’n gymwys i gael Lwfans Gofalwr fod yn gymwys i gael Credyd Gofalwr.

Nid oes angen i chi wneud cais am Gredyd Gofalwr os ydych:

- yn cael Lwfans Gofalwr - byddwch yn cael credydau yn awtomatig
- yn cael Budd-dal Plant ar gyfer plentyn o dan 12 oed - byddwch yn cael credydau yn awtomatig

- yn ofalwr maeth - gallwch wneud cais am gredydau Yswiriant Gwladol yn lle hynny

**Ffurflen Credyd Gofalwr**

Gallwch lawrlwytho'r ffurflen gais Credyd Gofalwr yn www.gov.uk/carers-credit/how-to-claim.

Gallwch hefyd gael y ffurflen drwy gysylltu â'r Uned Lwfans Gofalwr (isod).

Mae'r ffurflen yn cynnwys Tystysgrif Gofal - gofynnwch i weithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol ei llofnodi i chi.

**Ble i anfon eich ffurflen**

Carer's Allowance Unit
Mail Handling Site A
Wolverhampton
WV98 2AB

**Uned Lwfans Gofalwr**
Ffôn: 0800 731 0297
Ffôn testun: 0800 731 0317

Dydd Llun i ddydd Iau, 8:30am i 5pm
Dydd Gwener, 8:30am i 4:30pm

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn www.gov.uk/call-charges

## Chwilio am waith os ydych yn anabl

www.gov.uk/looking-for-work-if-disabled

Pan fyddwch yn chwilio am waith, edrychwch ar hysbysebion a ffurflenni cais ar gyfer y symbol 'hyderus o ran anabledd'.

Mae'r symbol hwn yn golygu:

- mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i gyflogi pobl anabl
- cewch gyfweliad gwarantedig os ydych yn bodloni'r amodau sylfaenol ar gyfer y swydd.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am swyddi yn eich ardal yn eich Canolfan Gwaith leol.

### Cael help

Gall eich Canolfan Gwaith leol eich helpu i ddod o hyd i swydd neu ennill sgiliau newydd a dweud wrthych am gyflogwyr yn eich ardal sy'n gyfeillgar i bobl anabl.

Gallant hefyd eich cyfeirio at seicolegydd gwaith arbenigol, os yw'n briodol, neu gynnal 'asesiad cyflogaeth', yn gofyn i chi am:

- eich sgiliau a'ch profiad
- pa fath o swyddi y mae gennych ddiddordeb ynddynt

Gofynnwch i'r Anogwr Gwaith yn eich Canolfan Gwaith leol.

### Rhaglenni a grantiau

Gall eich anogwr gwaith ddweud wrthych am raglenni a grantiau i'ch helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mynediad at Waith - arian tuag at weithiwr cynnal neu ar gyfer cost offer neu deithio i'r gwaith
- Cymorth Cyflogadwyedd Arbenigol – er mwyn eich helpu i fod yn barod i gyflogaeth neu i ddod yn hunangyflogedig

### Gwneud cais am swydd

### Cwestiynau am eich iechyd neu'ch anabledd

Nid yw cyflogwr fel arfer yn gallu gofyn cwestiynau am eich iechyd neu'ch anabledd cyn iddynt gynnig swydd i chi.

Gallant ond ofyn i chi am hyn am resymau cyfyngedig iawn, er enghraifft er mwyn:

- gwneud 'addasiadau rhesymol' – er enghraifft, os oes angen fersiwn print bras o'r prawf arnoch
- penderfynu a allwch wneud rhywbeth sy'n rhan hanfodol o'r swydd

### Os ydych yn cael eich trin yn annheg pan fyddwch yn gwneud cais am swydd

Cysylltwch a'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Cydraddoldeb os credwch eich bod wedi bod cael eich trin yn annheg.

Ffôn: 0808 800 0082
Ffôn testun: 0808 800 0084

Dydd Llun i ddydd Gwener 9am i 8pm, dydd Sadwrn 10am i 2pm.

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn
**www.gov.uk/call-charges**

Efallai y byddwch hefyd yn gallu cymryd cwyn i dribiwnlys cyflogaeth - rhaid i chi wneud hyn o fewn 3 mis i'r gwahaniaethu ddigwydd.

## Credyd Treth Gwaith

www.gov.uk/working-tax-credit

Gallech gael Credyd Treth Gwaith os yw'r naill un neu'r llall yn berthnasol:

- rydych rhwng 16 a 24 oed a bod gennych blentyn neu anabledd cymwys
- rydych yn 25 oed neu'n hŷn, gyda phlant neu heb blant

Mae'n rhaid i chi:

- gweithio nifer penodol o oriau'r wythnos
- cael eich talu am y gwaith a wnewch (neu y disgwylir i chi ei wneud)
- ar incwm sy'n is na'r lefel benodol

Mae'r swm sylfaenol ar gyfer Credyd Treth Gwaith hyd at £1,960 y flwyddyn - gallech gael mwy (neu lai) yn dibynnu ar eich amgylchiadau a'ch incwm.

Ni allwch hawlio credydau treth a Chredyd Cynhwysol ar yr un pryd.

Cewch wybod mwy yn **www.gov.uk/working-tax-credit**.

# Help arall os ydych yn anabl

## Taliadau Uniongyrchol

Os ydych chi neu rywun rydych yn gofalu amdanynt yn cael help gan y gwasanaethau cymdeithasol, gallwch wneud cais am daliadau uniongyrchol. Mae'r rhain yn eich galluogi i ddewis a phrynu'r gwasanaethau rydych eu hangen eich hunain yn hytrach na'i cael gan eich cyngor lleol.

Dewch o hyd i fwy yn www.gov.uk/apply-direct-payments

## Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Gallech gael grant gan eich cyngor leol os ydych yn anabl ac angen gwneud newidiadau i'ch cartref, er engrhaifft er mwyn:

- llydanu drysau a gosod rampiau
- gwella mynediad i ystafelloedd a chyflesuterau – e.e. lift grisiau neu ystafell ymolchi i lawr grisiau
- darparu system gwresogi sy'n addas i'ch anghenion
- addasu switshis rheoli gwres a golau er mwyn eu gwneud yn haws i'w ddefnyddio.

Ni fydd Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau a gewch. Dewch o hyd i fwy yn www.gov.uk/disabled-facilities-grants

## Y Cynllun Motability

I fod yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Motability, rhaid i chi gael un o'r lwfansau symudedd canlynol a rhaid i chi gael o leiaf 12 mis o'r dyfarniad yn weddill. Noder, nid yw Lwfans Gweini yn gallu cael ei ddefnyddio er mwyn llogi car twry'r Cynllun.

- Cyfradd Uwch yr Elfen Symudedd o Lwfans Byw i'r Anabl
- Cyfradd Uwch yr Elfen Symudedd o Daliad Annibyniaeth Personol
- Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel
- Taliad Annibynnol y Lluoedd Arfog

Cewch ragor o wybodaeth yn www.motability.co.uk

### Cynllun parcio Bathodyn Glas

Mae'r cynllun Bathodyn Glas yn darparu ystod o fuddion parcio i bobl anabl ag anawsterau cerdded difrifol sy'n teithio naill ai fel gyrwyr neu fel teithwyr.

Cewch wybod mwy yn www.gov.uk/apply-blue-badge

### Eithriad treth cerbyd

Gallwch wneud cais i gael eich eithrio rhag talu treth cerbyd os cewch:

- elfen symudedd cyfradd uwch Lwfans Byw i'r Anabl
- cyfradd uwch elfen symudedd Taliad Annibyniaeth Personol
- Atodiad Symudedd Pensiynwyr Rhyfel

Rhaid i'r cerbyd gael ei gofrestru yn enw'r person anabl neu enw eu gyrrwr enwebedig.

Rhaid defnyddio'r cerbyd ar gyfer anghenion personol y person anabl yn unig. Ni ellir ei ddefnyddio gan y gyrrwr enwebedig ar gyfer defnydd personol eu hunain.

Dim ond un eithraid treth cerbyd y gallwch ei gael ar unrhyw bryd penodol.

Cewch wybod my yn www.gov.uk/financial-help-disabled/vehicles-and-transport